Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 3048

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013

Adolygu'r cynllun

10.—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol heb fod yn hwyrach na 20 Rhagfyr bob blwyddyn, gan ddechrau yn 2014—

(a) adolygu'r cynnydd a wneir gan yr awdurdod lleol yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun yn unol ag adran 84(1)(b) o Ddeddf 2013;

(b) cyflwyno unrhyw gynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

(2) Wrth gynnal yr adolygiad hwnnw, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n eu hystyried yn briodol.